



cymdeithas
yr iaith

Senedd Cymdeithas yr Iaith a Rôl y Swyddogion

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith yn yr hydref bob blwyddyn. Yno yr etholir swyddogion newydd i wasanaethu ar y Senedd, sef y corff sy'n rheoli gwaith y mudiad ar lefel genedlaethol rhwng y cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac yn gwneud penderfyniadau o bwys yn ystod y flwyddyn.

Yn wahanol i lawer o fudiadau, mae'r rhan fwyaf o waith y Gymdeithas yn cael ei wneud gan aelodau gwirfoddol, yn hytrach nag aelodau o staff. Mae ymuno â'r Senedd felly yn gyfle i gyfrannu at y gwaith pwysig o gynnal mudiad ymgyrchu bywiog ac effeithiol.

Os cewch eich ethol i'r Senedd, byddwch yn cychwyn ar eich swydd wirfoddol yn y cyfarfod byr o'r Senedd a gynhelir yn syth ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol. Byddwch yn aros yn y swydd am flwyddyn, ond gallwch sefyll eto yn y Cyfarfod Cyffredinol nesaf wrth gwrs.

Rydym yn dechrau ar drefn newydd o ran cyfarfodydd y Senedd, sef cyfarfod bob deufis (gyda'r hawl i gynnal cyfarfodydd ychwanegol os bydd unrhyw faterion brys yn codi). Bydd tri o'r cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd a rhanbarthau a'r tri arall yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd a materion gweinyddol (sy'n cynnwys materion ariannol, aelodaeth, codi arian, cyfathrebu, dylunio, materion dysgwyr a materion rhyngwladol).

Mae'r cyfarfodydd naill ai Sadwrn cyntaf y mis neu'r ail ddydd Sadwrn (cewch restr o'r dyddiadau ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol); nid oes cyfarfod ym mis Awst.

Mae disgwyl i bob aelod o'r Senedd wneud ymdrech i fynychu pob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ond yn arbennig y rhai sydd fwya' perthnasol i'w gwaith.

Gall y cyfarfodydd fod yn rhai wyneb yn wyneb (yn aml yn Aberystwyth) neu yn rhai rhithioll. Pan fyddwn yn cyfarfod wyneb yn wyneb, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yna gyfleuster i ymuno ar-lein os oes angen.

Mae bod yn aelod o'r Senedd yn gyfle gwych i gydweithio gyda thîm o bobl dros y Gymraeg a chymunedau Cymru. Mae'n gyfle hefyd i feithrin pob math o sgiliau a phrofiadau gwahanol. Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod mynychu cyfarfodydd y Senedd yn hwylus i bawb. Noder y canlynol felly.

- Mae croeso i blant yn ein cyfarfodydd.
- Gall swyddogion y Gymdeithas gynnig lifftiau o sawl rhan o'r wlad – cysylltwch â'r swyddfa ganolog (01970 624501; post@cymdeithas.cymru) i weld a oes rhywun yn dod o'ch ardal chi.
- Os yw costau teithio neu ofal yn rhwystr rhag dod i'r cyfarfod, gallwch

wneud cais i hawliau'r costau'n ôl. Er hynny, fyddwn ni ddim ond yn ystyried ceisiadau am gostau teithio mewn amgylchiadau pan na fydd modd i chi drefnu liff, felly cysylltwch â'r swyddfa cyn gwneud trefniadau teithio neu ofal.

- Gweler y Polisi Treuliau Gwirfoddolwyr am fanylion pellach.

Nid ydych ar eich pen eich hun. Cymdeithas o bobl ydyn ni, felly cofiwch fod croeso bob amser i chi ofyn am gymorth un o'r staff cyflogedig neu aelodau eraill o'r Senedd.

Nodir yma swydd-ddisgrifiadau'r amryw swyddi ar y Senedd. Mae'r grwpiau ymgyrchu yn cwrdd bob 4-6 wythnos, a'r grwpiau eraill yn llai aml. Cyfarfodydd rhithiol yw'r rhain fel arfer er bod modd trefnu ambell i gyfarfod wyneb yn wyneb os yw'n ymarferol gwneud hynny. Ceisir cadw pob cyfarfod yn awr a hanner o hyd ar y mwyaf.

Cadeirydd Cenedlaethol

Y Cadeirydd yw prif swyddog y Gymdeithas a nhw sy'n gyfrifol am reoli'r Gymdeithas o ddydd i ddydd rhwng cyfarfodydd y Senedd.

Byddant yn cadeirio cyfarfodydd y Senedd ac yn llefaru ar ran y Gymdeithas ar y cyfryngau. Mae disgwyl iddynt hefyd fynychu cyfarfodydd gyda gwleidyddion a phrif swyddogion cyrff cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn.

Daw'r Cadeirydd yn aelod o:

- bob grŵp ymgyrchu er nad oes disgwyl iddynt fynychu pob cyfarfod o bob grŵp (ond mae'n ddefnyddiol iddynt fynychu rhai er mwyn gwybod beth yw'r datblygiadau diweddaraf)
- y Grŵp Cydlyn; sefydlwyd y grŵp yn ystod 2023 er mwyn diweddarau pawb o weithgarwch y staff a gwaith sydd ar y gweill a thrafod unrhyw faterion o bwys sy'n codi rhwng cyfarfodydd y Senedd. Aelodaeth y grŵp yw'r tim cadeiryddol a'r staff ac mae'n cyfarfod arlein bob pythefnos (ond nid yw'n ofynnol i bawb fod yn bresennol ym mhob cyfarfod)
- Pwyllgor Llywio'r Cyfarfod Cyffredinol sy'n cyfarfod rhyw deirgwaith y flwyddyn.

Bydd y Cadeirydd yn derbyn gwybodaeth am weithgarwch y grwpiau ymgyrchu a bydd disgwyl iddynt gadw golwg ar holl waith arall y Gymdeithas hefyd, gan gynnwys materion staffio a goruchwyllo gwaith y swyddogion o ddydd i ddydd, ond eto nid oes disgwyl iddynt ymwneud yn uniongyrchol â phob dim; mae tri Is-gadeirydd, gweddill aelodau'r Senedd a'r staff cyflogedig yno i gynorthwyo.

Er bod swydd y Cadeirydd Cenedlaethol yn un heriol ac uchel ei phroffil, mae pob Cadeirydd yn wahanol ac yn dod â sgiliau, profiad ac arbenigedd unigryw i'r swydd; mae'r swydd felly yn amrywio yn ôl natur ac amgylchiadau'r unigolyn.

Is-gadeirydd Cyfathrebu

Mae'r Is-gadeirydd Cyfathrebu yn un o dri Is-gadeirydd sydd yn cefnogi'r Cadeirydd. Yr Is-gadeirydd Cyfathrebu sy'n cydlynu gwaith cyfathrebu'r Gymdeithas, ac am lunio'r strategaeth cyfathrebu.

Maent yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol cyflogedig, ac yn gweithredu fel eu Rheolwr Llinell.

Maent yn cyfrannu at ddatganiadau i'r wasg, dogfennau polisi, ymatebion i ymgynghoriadau, ac ati, ac yn llefarydd ar ran y Gymdeithas.

Maent yn arwain y Grŵp Cyfathrebu sy'n cyfarfod yn achlysurol er mwyn cynllunio gwaith cyfathrebu'r Gymdeithas. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys y Cadeirydd Cenedlaethol, yr Is-gadeirydd Ymgyrchoedd, y Swyddog Aelodaeth, y Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol, y Swyddog Dylunio, Golygydd y Tafod, staff cyflogedig ac unrhyw aelod arall sydd â diddordeb yn y maes. Mae'r grŵp yn trafod yn rheolaidd mewn grŵp WhatsApp gan fod angen ymateb yn gyflym i bethau sy'n codi weithiau.

Daw'r Is-gadeirydd Cyfathrebu yn aelod o:

- y Grŵp Cydlynu; sefydlwyd y grŵp yn ystod 2023 er mwyn diweddarau pawb o weithgarwch y staff a gwaith sydd ar y gweill a thrafod unrhyw faterion o bwys sy'n codi rhwng cyfarfodydd y Senedd. Aelodaeth y grŵp yw'r tim cadeiryddol a'r staff ac mae'n cyfarfod arlein bob pythefnos (ond nid yw'n ofynnol i bawb fod yn bresennol ym mhob cyfarfod).
- Pwyllgor Llywio'r Cyfarfod Cyffredinol sy'n cyfarfod rhyw deirgwaith y flwyddyn.

Disgwylir iddynt fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar faterion yn ymwneud â gwaith cyfathrebu'r Gymdeithas yng nghyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Is-gadeirydd Gweinyddol

Mae'r Is-gadeirydd Gweinyddol yn un o dri Is-gadeirydd sydd yn cefnogi'r Cadeirydd. Yr Is-gadeirydd Gweinyddol sy'n gyfrifol am weinyddiaeth y Gymdeithas, gan gynnwys materion ariannol a buddsoddiadau, a materion staffio a chyflogaeth.

Maent yn gweithio'n agos gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyflogedig, ac yn gweithredu fel eu Rheolwr Llinell. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Trysorydd.

Daw'r Is-gadeirydd Gweinyddol yn aelod o:

- y Grŵp Codi Arian sy'n cyfarfod yn achlysurol
- y Grŵp Cydlynu; sefydlwyd y grŵp yn ystod 2023 er mwyn diweddarau pawb o weithgarwch y staff a gwaith sydd ar y gweill a thrafod unrhyw faterion o bwys sy'n codi rhwng cyfarfodydd y Senedd. Aelodaeth y grŵp yw'r tim cadeiryddol a'r staff ac mae'n cyfarfod arlein bob pythefnos (ond nid yw'n ofynnol i bawb fod yn bresennol ym mhob cyfarfod).

- Pwyllgor Llywio'r Cyfarfod Cyffredinol sy'n cyfarfod rhyw deirgwaith y flwyddyn.

Disgwylir iddynt fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar unrhyw faterion perthnasol yng nghyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Is-gadeirydd Ymgyrchoedd

Mae'r Is-gadeirydd Ymgyrchoedd yn un o dri Is-gadeirydd sydd yn cefnogi'r Cadeirydd. Prif gyfrifoldeb yr Is-gadeirydd Ymgyrchoedd yw sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu'n weithredol ac yn effeithiol. Deuant yn aelod o bob grŵp ymgyrchu ac, er na ddisgwylir iddynt fynychu pob cyfarfod o bob grŵp, mae disgwyl iddynt fod yn gyswllt rhwng y grwpiau hyn er mwyn sicrhau llwyddiant ymgyrchoedd y Gymdeithas. Maent hefyd yn llefarydd ar ran y Gymdeithas.

Maent yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Ymgyrchoedd cyflogedig, ac yn gweithredu fel eu Rheolwr Llinell.

Daw'r Is-gadeirydd Ymgyrchoedd hefyd yn aelod o:

- Bwyllgor Llywio'r Cyfarfod Cyffredinol sy'n cyfarfod rhyw deirgwaith y flwyddyn
- y Grŵp Cydlyn; sefydlwyd y grŵp yn ystod 2023 er mwyn diweddarau pawb o weithgarwch y staff a gwaith sydd ar y gweill a thrafod unrhyw faterion o bwys sy'n codi rhwng cyfarfodydd y Senedd. Aelodaeth y grŵp yw'r tim cadeiryddol a'r staff ac mae'n cyfarfod arlein bob pythefnos (ond nid yw'n ofynnol i bawb fod yn bresennol ym mhob cyfarfod).

Disgwylir iddynt fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar eu gwaith yng nghyfarfodydd y Senedd yn ôl yr angen.

Trysorydd

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am holl faterion ariannol y Gymdeithas, gan gynnwys y cyfrifon banc, talu biliau a chyflogau'r staff (sy'n cynnwys pensiwn a materion Cyllid a Thollau). Maent yn gweithio'n agos gyda'r Is-gadeirydd Gweinyddol a'r Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n paratoi llif arian misol ar gyfer sylw'r Senedd. Nhw hefyd sy'n paratoi'r adroddiad ariannol ar gyfer sylw'r Cyfarfod Cyffredinol.

Disgwylir iddynt fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar unrhyw faterion perthnasol yng nghyfarfodydd y Senedd Weinyddol.

Golygydd y Tafod

Cyhoeddir *Y Tafod*, cylchgrawn y Gymdeithas, deirgwaith y flwyddyn – ddiwedd Mai (ar gyfer Eisteddfod yr Urdd), ddiwedd Gorffennaf (ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol) ac ym mis Rhagfyr. Bydd y 4-6 wythnos cyn cyhoeddi'r *Tafod* yn rhai prysur.

Mae'r Golygydd yn gyfrifol am gynnwys a diwyg y cylchgrawn sy'n golygu annog cyfranwyr a chasglu erthyglau, rhoi'r cynnwys at ei gilydd, golygu a phrawf-ddarllen a threfnu dylunio gyda'r Swyddog Dylunio. Mae'r Grŵp

Cyfathrebu ar gael i helpu, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol sy'n gwneud y trefniadau ymarferol o ran argraffu a dosbarthu a chydlynu cyhoeddi'r cylchgrawn.

Disgwylir i Olygydd y *Tafod* fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar eu gwaith yn y Senedd Weinyddol, yn ôl yr angen.

Swyddog Aelodaeth

Mae'r Swyddog Aelodaeth yn gyfrifol am ein hymgyrchoedd aelodaeth. Maent yn bennaf gyfrifol am hyrwyddo aelodaeth a thynnu aelodau mewn i weithgarwch y Gymdeithas

Daw'r Swyddog Aelodaeth yn aelod o'r Grŵp Cyfathrebu, ond ni fyddan nhw'n aelod o'r Senedd (er y bydd hawl ganddyn nhw fynychu'r cyfarfodydd hyn wrth gwrs).

Swyddog Codi Arian a Mentrau Masnachol

Mae'r Swyddog Codi Arian a Mentrau Masnachol yn gyfrifol am weithgarwch codi arian y Gymdeithas, ac am feddwl am syniadau gwahanol i godi arian yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gweithgarwch Wythnos Codi Arian, Wythnos Aelodaeth a nwyddau.

Maent yn arwain y Grŵp Codi Arian sy'n cynnwys y Trysorydd, Is-gadeirydd Gweinyddol, y Swyddog Dylunio ac unrhyw aelodau eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Disgwylir i'r Swyddog Codi Arian a Mentrau Masnachol fynychu cyfarfodydd y Senedd, a pharatoi adroddiad ar gyfer cyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol yn cydweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Gwleidyddol i drefnu ein presenoldeb ar, a'n strategaeth ar gyfer, y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n swydd sy'n ymwneud â holl waith y Gymdeithas – ymgyrchoedd, digwyddiadau, nwyddau, ac ati.

Maent hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddog Cyfathrebu, yr Is-gadeirydd Cyfathrebu a'r Swyddog Dylunio, ac maent ar gael i helpu'r grwpiau ymgyrchu yn ôl yr angen.

Daw'r Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol yn aelod o'r Grŵp Cyfathrebu sy'n cyfarfod yn achlysurol.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar eu gwaith yn y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Swyddog Cyswllt Colegau

Mae'r Swyddog Cyswllt Colegau yn gyfrifol am ddenu pobl ifanc 16+ at waith y Gymdeithas.

Mae hon yn swydd newydd sbon felly mae cyfle i'w datblygu yn ôl diddordebau a phrofiad yr unigolyn fydd yn cyflawni'r rôl.

Disgwylir i'r Swyddog Cyswllt Colegau fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar eu gwaith yn y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Swyddog Diwylliant

Prif waith y Swyddog Diwylliant yw hyrwyddo ymgyrchu trwy ddulliau creadigol.

Mae hon yn swydd newydd sbon felly mae cyfle i'w datblygu yn ôl diddordebau a phrofiad yr unigolyn fydd yn cyflawni'r rôl.

Disgwylir i'r Swyddog Diwylliant fynychu cyfarfodydd y Senedd, a pharatoi adroddiad ar gyfer cyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Swyddog Dylunio

Y Swyddog Dylunio sy'n gyfrifol am drefnu a chydlynu gwaith dylunio'r Gymdeithas, gan gynnwys y Tafod (gyda'r pwyslais ar y trefnu a'r cydlynu). Ni ddisgwylir iddynt wneud yr holl waith dylunio eu hunain, bydd tynnu aelodau mewn i gynorthwyo gyda'r gwaith yn hollbwysig.

Yn ogystal â chadw trefn ar waith dylunio cyson y Gymdeithas drwy'r flwyddyn, mae'r cyfnodau pan gyhoeddir y Tafod yn rhai prysur a'r cyfnodau cyn yr eisteddfodau cenedlaethol neu ddigwyddiadau mawr eraill o bwys.

Daw'r Swyddog Dylunio yn aelod o'r Grŵp Cyfathrebu sy'n gallu rhoi cymorth a chefnogaeth. Daw'r Swyddog Dylunio hefyd yn aelod o'r Grŵp Codi Arian.

Disgwylir i'r Swyddog Dylunio fynychu cyfarfodydd y Senedd, ac adrodd ar eu gwaith yn y Senedd Weinyddol.

Swyddog Dysgwyr

Y Swyddog Dysgwyr sy'n gyfrifol am drefnu darpariaeth i bobl ddysgu'r iaith ac i dynnu dysgwyr i mewn i waith y Gymdeithas. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn cynnal boreau coffi ar-lein ddwywaith y mis a sesiwn arlein misol gyda'r nos, ond gall y gweithgarwch ehangach gynnwys penwythnosau preswyl i ddysgwyr ac amryw ddigwyddiadau i gefnogi siaradwyr newydd.

Mae Pwyllgor Dysgwyr yn cynorthwyo'r Swyddog gyda'r gwaith, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn cydlynu'r gweithgarwch.

Disgwylir i'r Swyddog Dysgwyr fynychu cyfarfodydd y Senedd, a pharatoi adroddiad ar gyfer cyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Swyddog Rhyngwladol

Mae'r Swyddog Rhyngwladol yn gyfrifol am ddatblygu ein perthynas gydag ymgyrchwyr iaith eraill ond gall y swydd amrywio yn ol diddordeb a phrofiad y Swyddog, e.e. gallent fod yn gwahodd ymgyrchwyr iaith i Gymru neu drefnu teithiau astudiaeth i aelodaeth y Gymdeithas yn rhyngwladol neu ymwneud mwy gyda datblygiadau polisi ac ymgyrchu ieithyddol ymysg cymunedau

rhyngwladol gydag ieithoedd a leiafrifwyd.

Mae Grŵp Materion Rhyngwladol yn cynorthwyo'r Swyddog gyda'r gwaith.

Disgwylir i'r Swyddog Rhyngwladol fynychu cyfarfodydd y Senedd, a pharatoi adroddiad ar gyfer cyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd a Gweinyddol.

Cadeirydd / Is-gadeirydd y Grwpiau Ymgyrchu

Mae gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd pob grŵp ymgyrchu gyfrifoldebau tebyg, felly cynhwysir y swydd-ddisgrifiadau hynny yma. Mae disgrifiad o feysydd penodol pob grŵp yn dilyn.

Gofynnir i bob grŵp gyfarfod bob 4-6 wythnos, cyfarfodydd rhithiol fel arfer er bod croeso i grwpiau drefnu ambell i gyfarfod wyneb yn wyneb os yw'n ymarferol gwneud hynny. Dylid ceisio cadw pob cyfarfod yn awr a hanner o hyd ar y mwyaf.

Mae'r dyletswyddau isod i'w rhannu rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y grŵp a dylai'r ddau swyddog gytuno ar raniad y gwaith ar ddechrau eu cyfnod:

- cynnull cyfarfodydd y grŵp (bob rhyw 4-6 wythnos drwy'r flwyddyn), cadeirio'r cyfarfodydd hynny a sicrhau bod rhywun yn cadw cofnodion
- llefaru ar ran y grŵp ar y cyfryngau ac mewn fforymau cyhoeddus eraill
- cydlynu ymgyrchoedd y grŵp a llunio strategaeth a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn; datblygu a gweithredu ymgyrchoedd a gwaith polisi'r grŵp ar sail hynny
- trefnu rhyddhau datganiadau i'r wasg (mewn cydweithrediad â'r Swyddog Cyfathrebu a'r Is-gadeirydd Cyfathrebu)
- mynychu cyfarfodydd y Senedd, a pharatoi adroddiad ysgrifenedig ar gyfer cyfarfodydd y Senedd Ymgyrchoedd (gellir rhoi adroddiad llafar ar faterion brys yn y cyfarfodydd eraill os oes angen)
- cysylltu â chyrrff perthnasol i waith y grŵp a mynychu cyfarfodydd gyda nhw (e.e. gyda Chomisiynydd y Gymraeg neu Lywodraeth Cymru)
- paratoi adroddiad am waith y flwyddyn i'r Cyfarfod Cyffredinol.

Mae'r Swyddog Ymgyrchoedd ar gael i gynorthwyo gyda gwaith y grwpiau, ac mae'r Is-gadeirydd Ymgyrchoedd yno i sicrhau bod y grwpiau ymgyrchu'n weithredol ac yn effeithiol.

Grŵp Addysg

Mae'r Grŵp Addysg yn arwain ar ymgyrchoedd addysg y Gymdeithas. Yn ddiweddar, prif ffocws y grŵp yw sicrhau Deddf Addysg Gymraeg i Bawb, un cymhwyster Cymraeg laith i bawb (dileu 'Cymraeg Ail laith'), cadw ysgolion bach, a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

Grŵp Cymunedau Cynaliadwy

Mae'r Grŵp Cymunedau Cynaliadwy yn arwain ar ymgyrchoedd sy'n ymwneud â thair, cynllunio, yr economi a materion eraill sy'n effeithio ar gymunedau Cymru. Prif ffocws y grŵp yn ddiweddar yw'r ymgyrch Nid yw Cymru ar Werth (mae Gweithgor Nid yw Cymru ar Werth wedi'i sefydlu i drefnu prif weithgarwch yr ymgyrch honno) a galw am Ddeddf Eiddo i reoli'r farchnad dai.

Grŵp Dyfodol Digidol

Mae'r Grŵp Dyfodol Digidol yn arwain ar ymgyrchoedd ynglŷn â materion darlledu, presenoldeb y Gymraeg ar-lein a materion eraill sy'n effeithio ar y Gymraeg yn y byd digidol. Datganoli darlledu yw un o brif ymgyrchoedd y grŵp yn y blynyddoedd diwethaf ynghyd â sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg i gynyddu cynnwys Cymraeg ar lein.

Grŵp Hawl i'r Gymraeg

Mae'r Grŵp Hawl yn arwain ar ymgyrchoedd ynglŷn â mynediad at wasanaethau yn Gymraeg, Safonau'r Gymraeg a statws yr iaith. Yn ddiweddar mae'r grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Safonau'n cael eu hestyn i'r sector breifat gan gynnwys y banciau a'r archfarchnadoedd.

Grŵp Iechyd a Lles

Mae'r Grŵp Iechyd a Lles yn canolbwyntio ar sicrhau hawliau i'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Diweddarwyd Hydref 2024